**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau a Chyllid

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 6 Medi 2017 am 10.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P R Hood-Williams | L James | M H Jones |
| P Jones | J W Jones | I E Mann |
| B J Rowlands | | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Bethan Hopkins | Swyddog Craffu |
| Richard Rowlands | Rheolwr yr Uned Cyflwyno Strategol |
| Ben Smith | Swyddog A.151 |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): P Downing
Aelodau Cyfetholedig(wyr):

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau

2 **Cofnodion.**

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y panel a gynhaliwyd ar 2 Awst 2017 fel cofnod cywir

3 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Dim

4 **Adroddiad Monitro Perfformiad Diwedd Blwyddyn 2016/17**

Daeth Richard Rowlands, Rheolwr Perfformiad Corfforaethol, i'r cyfarfod er mwyn diweddaru'r panel ar berfformiad y llynedd.
Rhoddodd gyngor ar sut y datblygir yr Adroddiad Monitro Perfformiad a'i berthnasedd.
Esboniodd i'r panel sut i ddarllen a dadansoddi'r wybodaeth.

Pwyntiau allweddol a godwyd:

• Ar gyfer pob blaenoriaeth y cyngor, dangoswyd perfformiad yn gwella
• Er ei fod yn ymddangos bod rhai o'r dangosyddion perfformiad wedi eu hailenwi, gall fod yna wahaniaethau o ran sut y diffinnir y dangosydd ac felly maent yn wahanol yn gynhenid
• Nid yw data penodol iawn ar bwynt allweddol (boed yn dda neu'n ddrwg) o reidrwydd yn adlewyrchu perfformiad cyffredinol adran
• Mae sylwadau yn yr adroddiad yn cynrychioli darlun eang o'r materion – os oes angen mwy o fanylder, yna mae'n rhaid i'r panel ymchwilio'n ddyfnach i'r manylyn

Roedd cwestiynau'r aelodau'n canolbwyntio ar y canlynol:

• Dadansoddiad o ffigurau dan Flaenoriaeth 1: Diogelu Pobl Ddiamddiffyn – mae'r term 'oedolyn' yn cyfeirio at bawb dros 18 oed. Mae angen adnoddau gwahanol ar oedrannau gwahanol, e.e. mae gwasanaethau i bobl hŷn yn wahanol iawn i wasanaethau ar gyfer pobl rhwng 18 a 24 oed. Gall perfformiad da neu ddrwg yn y grwpiau hyn gael ei guddio gan ffigur cyfartalog
• Soniwyd am fân fanylion rhai prosiectau
• Mae rhai DPA bellach wedi eu cynnwys dan deitlau eraill ac mae pryder posib dros golli'r rhain. Er enghraifft, mae canlyniad 'Pobl sy'n byw gartref neu yn y gymuned yn hytrach na mewn gofal preswyl' a'r dangosydd 'nifer y plant sy'n dechrau derbyn gofal yn ystod y cyfnod' bellach dan Flaenoriaeth 5 'Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy' yn hytrach na Blaenoriaeth 1 'Diogelu Pobl Ddiamddiffyn'

Cytunwyd y dylid cyfeirio'r ymholiadau canlynol i'r swyddogion perthnasol am ymateb:

1. Nodir ym Mlaenoriaeth 3 EC3 y cynyddwyd yr arwynebedd llawr masnachol a grëwyd yng nghanol y ddinas i gefnogi creu swyddi o ganlyniad i 'gyllid ar y gweill' ychwanegol.
Gofynnwyd am eglurhad o'r hyn a elwir yn 'gyllid ar y gweill'

2. Cyfeiria Blaenoriaeth 3 EC4 at nifer yr unedau o dai newydd yng nghanol dinas Abertawe o ganlyniad i gyllid Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.
Gofynnwyd am eglurhad o ran a yw'r unedau o dai yn newydd sbon neu'n disodli anheddau blaenorol safle Dewi Sant

3. Nodir ym Mlaenoriaeth 3 BBMA3 y cafwyd cynnydd yn nifer yr wythnosau hyfforddiant a chyflogaeth a gynhaliwyd gan Y Tu Hwnt i Frics a Morter ar gyfer y sawl sy'n ddi-waith ac yn anweithgar yn economaidd.
Gofynnwyd am eglurhad o ran lle cynhaliwyd yr hyfforddiant hwn

4. Nodwyd yn yr Adroddiad Monitro Perfformiad Diwedd Blwyddyn 2016/17, dan Flaenoriaeth 5 PI SUSC10, y cynhaliwyd 41 o wasanaethau yn y gymuned a gynhaliwyd yn ffurfiol gan y cyngor yn flaenorol, sy'n is na'r targed o 50.
Gofynnwyd am eglurhad o ran pa fath o wasanaethau roedd y 50 yn eu cynnwys

5. Nodwyd yn yr Adroddiad Monitro Perfformiad Diwedd Blwyddyn 2016/17 dan Gefnogaeth Gorfforaethol – Y Gweithlu PI CHR002 (t. 37) fod nifer y dyddiau/shifftiau gwaith a gollwyd fesul cyflogai CALI awdurdod lleol oherwydd salwch wedi gostwng. Gofynnwyd i'r ffigur hwn gael ei rannu'n salwch tymor hir a salwch achlysurol.

5 **Cynllun Corfforaethol 2017/22**

Rhoddwyd trosolwg o'r Cynllun Corfforaethol gan Richard Rowlands, Rheolwr Perfformiad Corfforaethol. Dywedodd wrth y panel ei fod yn adlewyrchu ymrwymiadau polisi newydd y cytunwyd arnynt yn ddiweddar gan y cyngor.

Pwyntiau allweddol a godwyd:

• Dylanwadwyd ar y Cynllun gan ddeddfwriaeth megis Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015
• Mae ffocws blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol yn ehangach na'r rhai blaenorol
• Caiff perfformiad corfforaethol ei fesur a'i adrodd yn chwarterol ac yn flynyddol yn yr adroddiad diwedd y flwyddyn

Roedd cwestiynau'r aelodau'n canolbwyntio ar y canlynol:

• Diffyg blaenoriaeth benodol sy'n ymroddedig i fioamrywiaeth a newid yn yr hinsawdd yn y Cynllun Corfforaethol, er mae'r materion hyn wedi'u cynnwys mewn blaenoriaethau eraill.
• Diffyg cyfeirio at weithgareddau craffu yn y Cynllun Corfforaethol

6 **Alldro Cyfalaf ac Ariannu 2016/17**

Rhoddwyd diweddariad ar alldro ac ariannu cyfalaf gan Ben Smith, Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a'r Ganolfan Gwasanaethau

Pwyntiau allweddol a godwyd:

• Sut y cyllidir cyfalaf
• Benthyca nas cefnogir a'r ffaith y bydd hyn yn cynyddu
• Sut y cyfrifir llog ar fenthyca'n gyffredinol

Roedd cwestiynau'r aelodau'n canolbwyntio ar y canlynol:

• Polisi benthyca'r cyngor a sut y penderfynir arno

Cytunwyd y dylid cyfeirio'r ymholiadau canlynol i'r swyddogion perthnasol am ymateb:

1. Rhoddwyd cyflwyniad i'r panel ar Adroddiad Alldro ac Ariannu Cyfalaf 2016/17. Nododd y panel y prosiectau a'r costau canlynol ar y daenlen Gwariant Prosiectau Cyfalaf yn Atodiad B (gyda gwariant yn fwy na £0.5 miliwn): Canol y Ddinas – cynlluniau Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (gan gynnwys Oceana, cydosodiad tir, adfywio'r Stryd Fawr, cynlluniau grant, system gylchu Westways). Roedd gan hyn wariant cysylltiedig o £9,304 (miliwn).

Gofynnodd y panel am ddadansoddiad o'r gwariant hwn.

2. Nododd y panel y prosiectau a'r costau canlynol ar y daenlen Gwariant Prosiectau Cyfalaf (t. 5):
Cost ARhC tai newydd ar Ffordd Milford a Pharc yr Helyg, sef £1,297 (miliwn)
Gofynnwyd am ddadansoddiad o'r ffigur hwn gan y panel.

7 **Monitro Cyllideb Refeniw a Chyfalaf Chwarter 1 2017/18**

Rhoddwyd diweddariad ar adroddiad monitro cyllideb refeniw a chyfalaf chwarter 1 gan Ben Smith, Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a'r Ganolfan Gwasanaethau.

Pwyntiau allweddol a godwyd:

• Prif feysydd gorwario
• Sut y cynllunnir y gronfa wrth gefn

Roedd cwestiynau'r aelodau'n canolbwyntio ar:

• Sut yr ymdriniwyd â diffygion mewn chwarteri eraill
• Sut yr ymdrinnir ag arian nas gwariwyd
• Dyrannu tâl cyhoeddus ac effeithiau posib cynnydd

Cytunwyd y dylid cyfeirio'r ymholiadau canlynol i'r swyddogion perthnasol am ymateb:

1. Yn Adroddiad Monitro Cyllideb Chwarter Cyntaf 2017/18 (t. 3), sylwodd y panel fod swm gwerth £136k o'r gronfa wrth gefn wedi'i ddyrannu i batholegwyr.
Gofynnwyd am eglurder ar y gwariant ynghyd â dadansoddiad ohono

2. Nododd y panel yn Adroddiad Monitro Cyllideb a Chyfalaf Chwarter Cyntaf 2017/18 (t. 4) y dyrannwyd £500k o'r gronfa wrth gefn i Wasanaethau Adeiladu Corfforaethol - ôl-daliadau ychwanegol.
Gofynnwyd am ragor o wybodaeth ar y ffigur a dadansoddiad

8 **Cynllun Gwaith 2017/2018**

Cydnabu'r panel fod angen cyfarfod ychwanegol ar gyfer craffu cyn penderfynu Adolygiad Comisiynu Diogelu'r Cyhoedd. Caiff yr Adroddiad Data Llywodraeth Leol blynyddol ei gynnwys yn y cyfarfod ar 4 Hydref 2017. Caiff eitem ar ffïoedd a benthyca ei amserlenni ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

The meeting ended at 12.20 pm

**Cadeirydd**